The Electoral Commission

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

Refferendwm yr UE: Talu anfonebau am wariant ar ymgyrchu

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE a'u cyflenwyr sydd am gael gwybodaeth am ddyddiadau cau ar gyfer talu anfonebau am wariant ar ymgyrchu, gan gynnwys y rheolau ynghylch taliadau hwyr

Cynnwys:

Derbyn anfonebau gan gyflenwyr

Talu anfonebau gan gyflenwyr

Caniatâd i dalu ar gyfer anfonebau hwyr

Os byddwch yn cael caniatâd i dalu

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio **'rhaid'** wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio **'dylai'** ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.
Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio cyllid a gwariant gwleidyddol mewn modd sy'n effeithiol, cymesur a theg. Rydym wedi ymrwymo i roi dealltwriaeth glir o'r rhwymedigaethau rheoleiddiol i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio trwy ein canllawiau a'n gwasanaeth cyngor. Os nad ydych yn siŵr o sut mae'r rheolau hyn yn berthnasol i chi, ffoniwch ni am gyngor. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Rydym hefyd yn cymryd camau gorfodi, gan ddefnyddio ein pwerau ymchwiliol a sancsiynau, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni ein nodau ac amcanion gorfodi.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. Mae mwy o wybodaeth am ddull gorfodi'r Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/roles-and-responsibilities/our-role-as-regulator-of-political-party-finances

2

Refferendwm yr UE: Talu anfonebau am wariant ar ymgyrchu

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig yn refferendwm yr UE a'u cyflenwyr sydd am gael gwybodaeth am ddyddiadau cau ar gyfer derbyn a thalu anfonebau am wariant ar ymgyrchu ar gyfer y refferendwm, gan gynnwys y rheolau ynghylch taliadau hwyr

Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- dyddiadau cau ar gyfer derbyn anfonebau gan gyflenwyr
- dyddiadau cau ar gyfer talu anfonebau gan gyflenwyr
- gwneud cais i'r llysoedd am ganiatâd i dalu
- gofynion adrodd

Dogfennau cysylltiedig:

- Gwariant ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE
- Amserlen a dyddiadau cau adrodd ar gyfer Refferendwm yr UE
- EUR3b - Ffurflen gwariant ar ymgyrchu

Papurau arbenigol

- Rhannu gwariant

Crynodeb

Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015 (EURA), yn nodi'r dyddiadau cau ar gyfer derbyn a thalu anfonebau am wariant ar ymgyrchu ar gyfer y refferendwm sy'n berthnasol i ymgyrchwyr cofrestredig yn refferendwm yr UE.

Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r dyddiadau cau a beth sydd angen i chi ei wneud os na chaiff y dyddiadau cau eu bodloni.

4

Cyflwyniad

O dan PPERA, fel y'i diwygiwyd gan EURA, mae gennym gyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â'r refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE.

Ein hamcanion ar gyfer y refferendwm yw:

- y dylai gael ei chynnal yn dda ac arwain at ganlyniadau a dderbynnir
- y dylai fod uniondeb a thryloywder o ran arian a gwariant ar ymgyrchu

Yn y cyfnod cyn refferendwm, ceir cyfnod ymgyrchu ffurfiol a elwir yn 'gyfnod y refferendwm'. Dechreuodd cyfnod y refferendwm ar 15 Ebrill 2016 a daw i ben ar 23 Mehefin 2016. Rhaid i unigolion a sefydliadau sy'n awyddus i wario mwy na £10,000 yn ystod cyfnod y refferendwm gofrestru â ni.

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio ‘chi’ i gyfeirio at ymgyrchydd refferendwm cofrestredig.

Mae dyddiadau cau statudol ar gyfer derbyn a thalu anfonebau am wariant ar ymgyrchu. Y diwrnod olaf y gall ymgyrchwyr refferendwm dderbyn anfonebau yw **dydd Llun, 25 Gorffennaf 2016.** Y diwrnod olaf y gall ymgyrchwyr refferendwm dalu anfonebau a dderbynnir o fewn yr amser hwn yw **dydd Llun, 22 Awst 2016.**

I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

- Gwariant ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE

I gael rhagor o wybodaeth am y darpariaethau deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r dyddiadau cau statudol ar gyfer derbyn a thalu anfonebau, gweler adran 115 ac adran 116 o PPERA ac Atodlen 1, paragraff 24 o EURA.

Talu anfonebau am wariant ar ymgyrchu

Derbyn anfonebau gan gyflenwyr

Y diwrnod olaf ar gyfer derbyn anfonebau gan eich cyflenwyr yw **dydd Llun, 25 Gorffennaf 2016.**

Caiff anfonebau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau hwn eu galw'n **hawliadau heb eu talu** at ddibenion adrodd. Rhaid i chi gofnodi hawliadau heb eu talu yn adran 4 o'ch ffurflen gwariant.

Ni chewch dalu hawliadau heb eu talu oni bai bod gorchymyn llys ar waith sy'n eich galluogi i wneud hynny. Gelwir hyn yn **ganiatâd i dalu** a gallwch chi neu'r cyflenwr ei gael drwy wneud cais i'r llys perthnasol cyn talu.

Pwysig

Mae'n drosedd gwneud taliad y tu allan i'r dyddiadau hyn heb **esgus rhesymol** oni bai eich bod wedi gwneud cais llwyddiannus am ganiatâd gan lys. Er mwyn i ni ystyried **esgus rhesymol**, byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth ategol.

Talu anfonebau

Y diwrnod olaf ar gyfer talu anfonebau a dderbynnir ar amser yw **dydd Llun, 22 Awst 2016.**

Caiff anfonebau a dderbynnir ar amser ond sydd heb eu talu ar ôl y dyddiad cau hwn eu galw'n **hawliadau sy'n destun anghydfod.** Rhaid i chi gofnodi hawliadau sy'n destun anghydfod yn adran 4 o'ch ffurflen gwariant.

Ni chewch dalu hawliadau sy'n destun anghydfod oni bai bod dyfarniad neu orchymyn llys ar waith sy'n eich galluogi i wneud hynny. Gelwir hyn yn **ganiatâd i dalu** a gallwch ei gael drwy wneud cais i'r llys perthnasol cyn talu. Gall cyflenwyr hefyd wneud cais i'r llys perthnasol er mwyn cael dyfarniad neu orchymyn llys am daliad.

Pwysig

Mae'n drosedd gwneud taliad y tu allan i'r dyddiadau hyn heb **esgus rhesymol** oni bai eich bod wedi gwneud cais llwyddiannus am ganiatâd gan lys. Er mwyn i ni ystyried **esgus rhesymol**, byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth ategol.

6

Gwneud cais am ganiatâd i dalu

Ni chewch dalu anfoneb os:

- byddwch yn ei derbyn ar ôl 25 Gorffennaf 2016, neu
- byddwch yn ei derbyn ar neu cyn 25 Gorffennaf 2016 ond yn methu neu'n gwrthod ei thalu erbyn y dyddiad cau, sef 22 Awst 2016

Yn achos hawliadau heb eu talu, gallwch dalu anfonebau a dderbynnir ar ôl 25 Gorffennaf os bydd cais wedi'i wneud i'r llys a'ch bod chi neu'r cyflenwr wedi cael caniatâd gan y llys i dalu.

Yn achos hawliadau sy'n destun anghydfod, gallwch dalu ar ôl y dyddiad cau, sef 22 Awst, os byddwch wedi gwneud cais i'r llys ac wedi cael caniatâd gan y llys i dalu neu os bydd eich cyflenwr wedi cael dyfarniad neu orchymyn llys am daliad.

Mae'r llysoedd canlynol yn delio â cheisiadau am ganiatâd i dalu:

- yr Uchel Lys neu lys sirol yng Nghymru a Lloegr
- yr Uchel Lys neu lys sirol yng Ngogledd Iwerddon
- y Llys Sesiwn neu'r Llysoedd Siryfion yn yr Alban
- Goruchaf Lys Gibraltar

Dylech gysylltu â'ch llys agosaf i gael rhagor o wybodaeth neu ewch i justice.gov.uk.

Gofynion adrodd

Rhaid i chi gofnodi manylion unrhyw hawliadau heb eu talu neu hawliadau sy'n destun anghydfod yn adran 4 o'ch ffurflen gwariant. Rhaid i chi gynnwys y taliadau dan sylw a'r canlynol:

- enw'r llys a dyddiad y cais mewn perthynas â hawliadau heb eu talu
- natur yr anghydfod a'r camau rydych wedi'u cymryd mewn perthynas â hawliadau sy'n destun anghydfod

Dylech hefyd gynnwys copi o unrhyw orchymyn llys.
Os rhoddir caniatâd i dalu ar ôl i chi gyflwyno eich ffurflen gwariant, rhaid i chi hysbysu'r Comisiwn yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod a chynnwys copi o'r Gorchymyn Llys.



Refferendwm yr UE: Talu anfonebau am wariant ar ymgyrchu

Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 0333 103 1928
  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0333 103 1928
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0333 103 1929
  gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: pef@electoralcommission.org.uk